

Datganiad ar Adfer ac Ehangu Coetir ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Dr Paul Sinnadurai FCIEEM

Fersiwn Derfynol 28 Tachwedd 2019

Dyddiad cymeradwywyd gan APCBB: 10 Rhagfyr 10 2019

Dyddiad ar gyfer adolygiad: 10 Rhagfyr 2021

Yr Ystyriaeth

Mae crynodiadau nwyon tŷ gwydr atmosfferig yn rhy uchel ac yn cynyddu ac mae'r byd naturiol yn dioddef, ac mae hyn oll o ganlyniad i weithgaredd pobl. Mae adroddiad y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (Awst 2019), (y Panel), ynghyd ag adroddiad Rhynglywodraethol ar Blatfform Polisi Gwyddoniaeth ar Wasanaethau Bioamrywiaeth ac Ecosystemau (Mai 2019), (y Platfform), ill dau yn hysbysu fod yn rhaid i ni weithredu nawr i gyflawni newid trawsnewidiol i gyfyngu cyfartaledd tymheredd blynyddol byd-eang o fewn 1.5°C i lefelau 1990, ac i wrthdroi'r dirywiad brawychus mewn bioamrywiaeth byd-eang yn ystod y digwyddiad difodiant Dyn-greiddiol hwn. Rydym yn cytuno â blaenoriaethau'r Panel: yn gyntaf, gostwng allyriadau; yn ail, atal colli cynefin presennol ac adfer ble y bo'n bosibl; ac yn drydydd, creu coedwigaeth a chynefinoedd. Rydym yn cytuno â dadansoddiad y Platfform fod y newid o ddefnydd tir wedi cael yr effaith negyddol fwyaf ar natur ers 1970, gyda gor-ecsbloetio anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill yn dilyn hynny, a hynny gan fwyaf drwy gynaeafu, torri coed, hela a physgota a bod gweithredu trawsnewidiol yn ofynnol i wrthdroi'r effeithiau hyn.

Nod Strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cymru (2018) yw cynyddu arwynebedd coetiroedd yng Nghymru gan o leiaf 2000 hectar y flwyddyn rhwng 2020 a 2030 a chynyddu arwynebedd coed gynyddu yng nghefn gwlad ehangach ac mewn trefi a dinasoedd ac o'u cwmpas. Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur y Parc, "*Dyfodol â Natur yn Galon iddo*," yn hyrwyddo'r ymagwedd o 'ragor, mwy, gwell, a mwy cysylltiedig' o ran llyfdd ar gyfer natur. Mae'n darparu trefn wrth ymateb i hyn, o dan arweiniad Partneriaeth Natur Leol. Ymhlith sawl blaenoriaeth, y ffocws ar gyfer coetir yn y cynllun yw "*datblygu prosiect o amgylch diogelu coetir hynafol, coed hynafol, coed pori, ffridd/coed-cae a pharcdir, a hynny i gynnwys eu rheoli, adfer, adnewyddu ac ehangu. Hefyd i bennu ar eu graddau ac ansawdd, ac i gefisio cael arian gwaith cyfalaf.*"

Y Dystiolaeth

Mae tir coediog Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn wasgarog, sy'n adlewyrchu hanes ecsbloetiaeth pobl o'r ardaloedd coediog gynt ar gyfer pren, amaethyddiaeth, ffibr coed arall a thanwydd. Heddiw, mae ychydig o dan 14% o'r Parc (18,484.37 ha) yn cynnal coetir neu blanhigfa fforest fasnachol (**Atodiad I Tabl I**). O hwn, mae ychydig o dan 5% o'r Parc (6411.91 ha) yn goetir llydanddail lled-naturiol neu'n goetir cymysg gan gynnwys coetir cymysg a blannwyd. Mae'r rhan helaethaf o goetir collddail y parc yn dameidiau bach ac o dan berchnogaeth breifat ac nid yw'r rhan fwyaf yn cael eu rheoli'n bwrpasol nac yn rhoi ystyriaeth i gadwraeth bioamrywiaeth ac adfer natur. Mae yna, fodd bynnag, bedwar coetir sy'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, nifer o goetiroedd sy'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, sawl coetir gwarchodfa natur dan berchnogaeth ac a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Dwyrain Cymru, Coed Cadw ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ac mae nifer fach, ond sydd eto'n tyfu, o goetiroedd sy'n cael eu rheoli gan gymunedau. Yn hanesyddol, bu Coed Cymru yn darparu gwasanaeth cynghori i berchnogion coetiroedd bach y Parc. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys polisiâu ar gyfer cefnogi coetiroedd a pherllannau cymunedol newydd oddi fewn i ddatblygiad, cafodd canllaw cynllunio atodol ei gyhoeddi¹ ar asedau bioamrywiaeth gan gynnwys coetiroedd yn aneddiadau allweddol y Parc ac o'i gwmpas, ac mae'n ofynnol bod awdurdodau

¹ Biodiversity in the Towns of the National Park <https://www.beacons-npa.gov.uk/planning/draft-strategy-and-policy/supplementary-planning-guidance/>

cynllunio lleol yn annog rheoli nodweddion fel coetiroedd bach sy'n hanfodol ar gyfer mudiad, gwasgariad a chyfnewid geneteg rhywogaethau gwyllt².

Ymhlith y nifer o fanteision y mae coetir iach ac eang yn eu darparu, pan fo yno fioamrywiaeth gyfoethog eisoos, mae:

Atafaeliad CO ₂	Gwella ansawdd dŵr
Natur gyfoethog ac amrywiol	Cadwraeth pridd
Cylched carbon ac ocsigen iach	Gwellhad o ran llifogydd
Ailgylchu maetholion	Sgrinio tirwedd
Ataliad llwch	Cysylltedd tirwedd
Rheoli llygredd	Ffibr pren a thanwydd
Aerdymheru atmosfferig	Manteision economaidd-gymdeithasol
Ymdreiddiad dŵr i'r dirwedd	lechyd a llesiant pobl

Ein dadansoddiad

Ynghyd â chadwraeth ac adfer pridd a mawndir, profwyd bod cynyddu arwynebedd coetir a choed pori yn fodd o leddfu'r gollyngiad o allyriadau tŷ gwydr ac o gloi carbon deuocsid atmosfferig (CO₂)³. Yn ychwanegol, mae adfer ac ehangu coetir yn hawdd ei ddeall ac felly'n boblogaidd. Ble y caiff nodau eu diffinio'n dda a ble y caiff cynlluniau eu cynllunio a'u gweithredu'n dda, mae adfer ac ehangu coetir o fudd i natur ac yn darparu cyfleoedd i bobl gymryd rhan uniongyrchol, gan wella eu hiechyd a'u llesiant. Rydym yn cydnabod, fod potensial i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'i bobl ddarparu digon o gyfleoedd i ehangu coetiroedd cyfredol drwy annog adfywiad naturiol, plannu coetiroedd a gweithredu cymunedol a chydweithredol perthnasol. Rhaid i bob dull gael cafeat drwy ddeallusrwydd i osgoi gormodedd o wastraff plastig (gwarchodyddion coed), ymwybyddiaeth y bydd poblogaethau bach y Parc o geirw coch ac ewig llwyd yn cynyddu, rheoli rhywogaethau estron a goresgynnol a byw gyda'r risgiau i rywogaethau coed cynhenid oddi wrth glefydau, plâu a phathogenau a welir bellach mewn haint llarwydden, gwyfyn ymdeithiwr y derw, ac eraill. Rhaid bob amser cyflawni adferiad ac ehangu coetir mewn ffyrdd sy'n cydweddu dosbarthu, adfer ac ehangu cynefinoedd eraill, cadwraeth o'r amgylchedd hanesyddol ac sy'n sensitif i'r angen i barhau i gynhyrchu bwyd mewn cadwynau cyflenwi lleol a rhanbarthol.

Mae graddau gwasgaredig a thameidiog coetiroedd y Parc yn golygu fod eu cyfraniad fel sinc carbon i leddfu allyriadau tŷ gwydr yn debygol o fod yn fach. Mae'r natur dameidiog hefyd yn ffrwyno amrywiaeth ecolegol coetiroedd a chyfoeth bywyd gwyllt. Er mwyn cyflawni buddion y gellir sylwi arnynt mae'n ofynnol cael ymdrech sylweddol a pharhaus dros sawl degawd i adfer coetiroedd (**Atodiad I**), yn enwedig coetir llydanddail, cysylltu rhwng coetiroedd a chael gwared ar y pwysau sydd ar goetiroedd cyfredol, wrth gydweddu cadwraeth cynefinoedd eraill a chadwraeth o'r amgylchedd hanesyddol.

Yn hanesyddol, cafodd ardaloedd coetir eu clirio i hwyluso hela ac ehangu tir pori. Cafodd coetiroedd, fel y'u deallwn heddiw, eu hamgáu'n fwriadol o dirluniau a oedd yn goed pori mwy agored, a'u plannu a'u rheoli i ddarparu pren (adeiladu, llongau, a defnyddiau eraill), golosg a choed tanwydd. Rhaid i ni adfer, cadw a gwella'r coetiroedd amgaeedig hynafol lled-naturiol hyn, ond yn ecolegol, gallai ardaloedd heb eu hamgáu o brysg, coed pori, parcdir a 'fforest' (hynny yw ardaloedd o goed, prysg a glaswelltir), ynghyd â'r pori priodol - e.e. gwartheg, sy'n anifeiliaid fforest naturiol - fod yn fwy buddiol a bydd hyn yn fwy buddiol i gyfoethogi'r tirlun hefyd. Felly byddwn ni'n gefnogol o amrywiaeth o fathau o goetiroedd a gorlifdiroedd a llethrau dyffrynnoedd, yn ogystal â chadw a rhoi hwb i goed aeddfed a hynafol sydd yno eisoos. Byddwn yn cefnogi ehangiad coetir sy'n ddeallus yn ecolegol ac yn fio-ddaearyddol ac yn annog adfer cynefinoedd eraill hefyd.

² Article 10 of the EC Habitats Directive 1992.

³ <https://woodlandcarboncode.org.uk/>

Ceir digon o ddata, dealltwriaeth a gwybodaeth i ddylunio cynllun adfer coetir i'r Parc, a cheir archwaeth i geisio cael cyfalaf a refeniw ariannu i roi hyn ar waith. Yr allwedd i lwyddiant yw cyflawni consensws ar draws y sectorau ar gyfer gweithredu cydunol a pharhaus dros ddegawdau, ac i gyflenwi'n seiliedig ar hynny. Mae **Atodiad 1** yn amlinellu rhai amcangyfrifon o ran costau a chwmpas.

Gweithredu angenrheidiol i gynyddu graddau ac ansawdd ecolegol coetir collddail y Parc yn effeithiol

Mae angen partneriaeth gref o ran coetir arnom i arwain ar adfer ac ehangu coetir ac i adeiladu ar, ac estyn y tu hwnt i'r cynnydd a wnaed drwy fentrau amaeth-amgylcheddol coetiroedd hyd yma (Cynllun Grantiau Coetir, Coetiroedd Gwell i Gymru, a'r grantiau Coetir Glastir niferus). Y partneriaid arweiniol naturiol yw Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyswllt Ffermio, Coed Cadw, Coed Cymru, Dŵr Cymru, Sefydliad Gwy ac Wysg, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Vincent, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent, prifysgolion a thirfeddianwyr preifat bodlon; wedi ei danategu gan fwrriad gwirioneddol o ran Llywodraeth Cymru i wella arwynebedd coetir yn y fan hon. Bydda'r bartneriaeth hon yn gweithio mewn cydweithrediad â gwasanaeth cynghori busnes newydd a geisir o dan Ffermio Cynaliadwy ac Ein Tir.

Nod y rhaglen adfer ac ehangu coetir fyddai cyflawni:

Gosod nodau ar gyfer y 'Statws Cadwraethol Ffafirol'⁴ ar gyfer coetir llydanddail a phriddoedd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog'

Gosod nodau, llwybr ac amserlen i gyflawni'r Statws Cadwriaethol Ffafirol gan gynnwys:

- Adfer coedcae/ffridd a chreu parthau uchderol ar gyfer coetiroedd a choed
- Adfer ac ehangu tir parc a choed pori
- Adfer coetir torlannol
- Adfer coetir llydanddail ar Safleoedd Coetir Hynafol a Blannwyd
- Adfer bioamrywiaeth gynefin coetir
- Cyflawni consensws ar gyfer adfer coetir ar dir comin a gofrestrwyd
- Ailddarganfod gollyngiad afon fwy gwastad, llai afreolaidd drwy gydol y flwyddyn
- Diogelu'r amgylchedd hanesyddol
- Cyflawni gwelliannau mynediad a Hawliau Tramwy ar gyfer man gwyrdd naturiol hygyrch gan gynnwys coetir
- Datblygu cynyddio coetir ar gyfer coed, ffibr a storio carbon
- Osgoi 'coniffestreiddio' eang ar dir a ryddhawyd o amaeth
- Cael gwared ar leiniau coetir a lloches amhriodol
- Cefnogi mentrau coetir cymunedol, a
- Datblygu prosiectau pilot ac ardaloedd ar gyfer yr uchod.

⁴ <https://ieep.eu/publications/how-is-favourable-conservation-status-being-defined-across-the-eu>